

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn E Jones

Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

7fed o Fai 2019

- 1 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2018.
- 2 Etholwyd Rhodri Prys Jones yn Gadeirydd am y flwyddyn 2019-20.
- 3 Etholwyd Dewi Jones yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2019-20.
- 4 Penodwyd Cynghorwyr i weithredu ar is-bwyllgorau (gweler isod).
- 5 Enwebwyd Huw Pierce Roberts yn gynrychiolydd y Cyngor ar bwyllgor ardal Un Llais Cymru.
- 6 Enwebwyd Huw Antur ac Alwyn E Jones yn gynrychiolwyr ar Bartneriaeth Penllyn.
- 7 Adolygwyd a chadarnhawyd y Rheolau Sefydlog.
- 8 Adolygwyd a chadarnhawyd y Côd Ymddygiad.
- 9 Adolygwyd a chadarnhawyd y Rheoliadau Ariannol.
- 10 Adolygwyd a chadarnhawyd y Polisi Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data
- 11 Cadarnhawyd parhau gyda'r Cytundeb rhwng y Cyngor Cymuned fel aelod o Bartneriaeth Penllyn â Chyngor Gwynedd.
- 12 Adolygwyd rhestr o eiddo ac asedau'r Cyngor; cytunwyd i ychwanegu'r Ciosg ym Mhenantlliw
- 13 Adolygwyd a chadarnhawyd y trefniadau yswiriant.
- 14 Cymeradwywyd Cyfrifon y flwyddyn 2018-19.
- 15 Cytunwyd i apwyntio Luned Fôn yn Archwilydd Mewnol ar gyfer 2019-20.
- 16 Cadarnhawyd Cofrestr Datganiad Buddiant am y flwyddyn 2018-19.
- 17 Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd 2019-20. (gweler isod)
- 18 Wrth gloi'r Cyfarfod Blynyddol, diolchodd Alwyn E Jones am yr anrhydedd o gael bod yn Gadeirydd ar y Cyngor Cymuned a mynegodd cymaint yr oedd wedi mwynhau'r profiad. Roedd y Cyngor wedi gallu adeiladu ar yr hyn yr oedd y cyn-gadeirydd wedi ei roi ar y gweill a bu symud ymlaen ar brosiect Llwybr y Cei, y Paneli gwybodaeth, trafodaethau ar barcio Ty'n Ddol a Maesypany, Y Fynwent a'r Cyfleusterau Cyhoeddus. Cyfeiriodd at y Goeden Nadolig ac at lwyddiant y Noson Goffi er budd yr Ambiwlans Awyr. Canmolodd aelodau'r Cyngor am eu parodrwydd i ysgwyddo'r gwaith mewn cyfarfod ac mewn is-bwyllgorau er mwyn cael y maen i'r wal. Talodd

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn E Jones

ddiolch hefyd i'r ddwy swyddog am eu gwaith manwl a diwyd a therfynodd trwy ddymuno'n dda iawn i'r cadeirydd Newydd, Rhodri Prys Jones.